Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur

Nature Friendly Farming Network

***Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig***

***Ymgynghoriad Rheoliadau Llygredd Amaethyddol: Ymateb NFFN Cymru***

**Cefndir**

Mae'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) yn gorff sy'n cael ei arwain gan ffermwyr a sefydlwyd ym mis Ionawr 2018. Rydym yn dod â ffermwyr ledled y DU ynghyd sydd wedi ymrwymo i dyfu a darparu bwyd iach, maethlon wrth reoli eu tir ar gyfer bywyd gwyllt a'r amgylchedd ar yr un pryd. Mae gennym 10 ffermwr ar ein grŵp llywio NFFN Cymru, a bron i 300 o aelodau sy'n ffermwyr yng Nghymru sy'n cefnogi ein maniffesto, sy'n pwysleisio'r gefnogaeth sydd yno i reoli tir er lles natur gan ffermwyr sy'n chwilio am lais i ddylanwadu ar bolisïau'r dyfodol.

**Cyd-destun**

1.1 Er bod enghreifftiau di-ri o ffermydd cynaliadwy sy'n ffermio er lles natur yng Nghymru, mae'n rhaid i ni gydnabod bod llygredd amaethyddol yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef. Mae llygredd amaethyddol yn effeithio ar yr amgylchedd, ein cymdeithas a'n heconomi. Mae'n niweidio iechyd pobl, bywyd gwyllt, yr hinsawdd, y gallu i hamddena, twristiaeth ac, heb os, amaethyddiaeth ei hun - wedi'r cyfan, ein hadnoddau naturiol (sy'n cynnwys ein priddoedd, aer, bioamrywiaeth a dŵr) yw seiliau hanfodol cynhyrchu bwyd. Fel diwydiant, fedrwn ni ddim anwybyddu'r broblem hon.

1.2 Yn wir, mae 63% o gyrff dŵr croyw Cymru a ddiffinnir gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd (h.y. afonydd mawr a llynnoedd) yn methu â chyrraedd safon dda neu uwch. Er ei fod yn bwysig cydnabod a mynd i'r afael â llygredd dŵr sy'n deillio o sectorau eraill (yn arbennig gollyngiadau trwyddedig gan gwmnïau dŵr a'r diwydiant mwyngloddio metel hanesyddol), nodwn fod ar gyfartaledd dros dri digwyddiad llygredd amaethyddol yr wythnos yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf; felly mae cryn le i wella o hyd. Nodwn hefyd fod amaethyddiaeth yn cyfrannu at dros 85% o allyriadau amonia yng Nghymru, sy'n tarddu'n bennaf o reoli tail ac, yn benodol, o wasgaru slyri.

1.3 Ond, mae ffermio er lles natur, yn enwedig ffermio o fewn capasiti cynhyrchu naturiol y tir, yn allweddol wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae angen ystod o wahanol ymyriadau i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu gwarchod, eu cynnal a'u gwella. Bydd y rhain yn cynnwys cymorth polisi, buddsoddi cyfalaf, addysg, cynnig cyngor ac arweiniad clir, rheoleiddio, monitro a chamau gorfodi. Isod mae syniadau NFFN Cymru ar sut i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn.

**Pwyntiau Allweddol**

- Gellir dadlau mai'r hyn sydd wrth wraidd llygredd amaethyddol yw dwysedd stocio uwch na chapasiti cynhyrchu naturiol y tir. Felly, dylem annog cadw gyrroedd o faint sy'n gydnaws â chapasiti cynhyrchu naturiol y tir.

- Rydym yn pryderu y gallai costau biwrocratiaeth a chydymffurfiaeth uwch arwain at ostyngiad mewn systemau pori gwartheg eang, yn enwedig ar ffermydd mynydd/yn yr ucheldir lle gall gwartheg weithredu fel porwyr gwerthfawr er lles cadwraeth.

- Dylai systemau ffermio sydd o Werth Mawr i Natur (HNV), a nodweddir gan systemau pori eang, dderbyn blaenoriaeth pan ddaw hi at gymorth cyllid i'w helpu i gydymffurfio â rheoleiddio. Cyn i ni wario arian cyhoeddus ar gynyddu maint storfeydd slyri ar ffermydd dwys, dylid ystyried faint o anifeiliaid maent yn eu cadw.

- Rydym yn croesawu gofynion ar gyfer mwy o gynllunio rheoli maethynnau, a all helpu i leihau arferion gwael fel gor-wrteithio a gwrteithio tir anaddas ac yn ystod tywydd amhriodol.

- Dylai rheoleiddio dargedu troseddwyr cyson yn well, â chosbau trymach yn cael eu rhoi i'r rhai sy'n llygru'n ddigywilydd neu'n gwneud hynny'n fwriadol. Yn sgil hynny, mae'n rhaid i'r camau gorfodi fod yn ddigonol i ddileu'r arfer hwn ac i newid ymddygiad.

***Beth yw agweddau cadarnhaol y dull gweithredu cyfredol ar gyfer Cymru gyfan?***

2.1 Rydym yn croesawu gofynion ar gyfer mwy o gynllunio rheoli maethynnau, yn enwedig yr angen i greu a chynnal map risg, mesur faint o nitrogen sy'n deillio o dail sy'n debygol o fod ar gael ar gyfer cnydau, a chynhyrchu cynllun ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen yn ystod y tymor tyfu. Dylai hyn alluogi ffermwyr i ddewis dull mwy penodol, wedi'i seilio ar risg, o wasgaru maethynnau, gan osgoi gor-wrteithio a hyrwyddo arferion rheoli tir gwell hefyd. Bydd hyn yn helpu i leihau faint o wrtaith a brynir gan ffermwyr a, thrwy hynny, leihau ôl troed carbon y diwydiant. Bydd hefyd o fudd i'r busnes fferm drwy leihau costau a'r llwyth gwaith.

2.2 Gall osod cyfyngiad ar ddefnydd nitrogen ar fferm gynorthwyo i hyrwyddo dwysedd stocio da byw sy'n fwy cynaliadwy. Gellir dadlau mai'r hyn sydd wrth wraidd camreoli slyri yw dwysedd stocio uwch na chapasiti cynhyrchu naturiol y tir. Mae hyn yn golygu bod maint y slyri sy'n cael ei gynhyrchu yn fwy na faint o dir y gellir ei daenu arno'n gynaliadwy. O ganlyniad, mae ffermwyr yn aml yn cael eu gorfodi i daenu slyri ar raddfa amhriodol a/neu yn ystod tywydd neu gyflwr pridd anaddas. Mae hwn yn fater pwysig nad yw'n codi'n aml mewn trafodaethau ynglŷn â digwyddiadau llygredd amaethyddol a dirywiad amgylcheddol sy'n gysylltiedig â hwy ac mae angen llawer mwy o sylw arno.

2.3 Gall gofynion storio slyri cynyddol helpu arwain ffermwyr at flaenoriaethu gwahanu dŵr glân a budr a, thrwy hynny, leihau faint o slyri y mae angen ei storio. Gall hyn yn ei dro greu slyri sy'n cynnwys llawer mwy o faethynnau a ddylai, o'i daenu'n gywir, alluogi gostyngiad mewn gwrtaith cyfansawdd a brynir.

***Beth yw agweddau negyddol y dull gweithredu cyfredol ar gyfer Cymru gyfan?***

**Costau cydymffurfio**

3.1 Ar hyn o bryd does gan nifer o ffermydd y seilwaith priodol i gadw slyri ychwanegol neu systemau digonol i wahanu dŵr glân a budr. Mae prisiau wrth gât y fferm sy'n is nag erioed o'r blaen yn rhwystr i ail-fuddsoddi mewn seilwaith y fferm er mwyn addasu i'r gofynion sydd eu hangen. Hefyd, mae cost deunyddiau wedi codi'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda phris dur strwythurol 38% yn uwch nag yr oedd ym mis Gorffennaf 2020. Gall hyn, ynghyd â'r ffaith nad yw prisiau wrth gât y fferm yn cynyddu gyda chwyddiant, arwain at nifer o ffermwyr yn methu â gallu cydymffurfio.

3.2 Felly, mae'n hanfodol bod ffermwyr yn cael cynnig cymorth ariannol i helpu i dalu costau cydymffurfio â gofynion rheoliadol newydd. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig cymorth ariannol, ond mae'r pecyn cymorth o £11.5m a addawyd yn annigonol wrth ystyried y ffaith y gallai'r costau i ffermwyr fod rhwng £109m a £360m. Mae rhai ffermwyr hefyd yn credu bod y broses o gael cyllid yn rhy gymhleth ac yn mynd ag amser.

3.3 Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i ffermwyr sydd eisoes yn ffermio er lles natur, ac sydd wedi ymrwymo i ddiogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd, ar gyfer derbyn cymorth. Yn wir, mae ein harolwg NFFN diweddar o'r cyhoedd yn dangos bod 73% o Gymry yn credu y dylai ffermwyr sydd wedi bod yn ffermio er lles natur ers nifer o flynyddoedd gael mynediad cynnar at arian cyhoeddus (o drethdalwyr). Credwn y dylai hyn fod yn wir wrth rannu cyllid i gydymffurfio â rheoliadau arfaethedig Parthau Perygl Nitradau (NVZ) ledled Cymru. Cyn gwario symiau enfawr o arian cyhoeddus ar gynyddu maint storfeydd slyri ar ffermydd dwys, dylid ystyried faint o anifeiliaid maent yn eu cadw. Fel arall, ai 'mond cuddio'r craciau ydym ni ac yn cynnal arferion ffermio anghynaladwy.

3.4 Nid oes gan ffermwyr tenant yr ecwiti yn eu daliadau i gyfiawnhau gwariant ychwanegol ar welliannau i seilwaith ar ddaliad nad ydyn nhw'n berchen arno.

**Colli pori gwartheg ar raddfa eang**

3.5 Yn ychwanegol i'r uchod - os yw costau cydymffurfio yn rhy uchel, ni fydd gan ffermwyr unrhyw ddewis ond rhoi'r gorau i'w busnesau cig eidion/llaeth. Mae hyn yn arbennig o wir i systemau gwartheg

mynydd/ucheldir, lle mae busnesau'n fwy dibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus. Yn aml nodweddir ffermydd mynydd ac ucheldir gan systemau pori gwartheg eang o ddwysedd isel, a all chwarae rhan bwysig wrth wella bioamrywiaeth. Gall gwartheg fod yn borwyr er lles cadwraeth rhagorol, gan helpu i reoli cynefinoedd gwerthfawr fel ffridd, glaswelltir gwlyb (*Molinia*), gweirgloddiau a rhostir. Mae NFFN Cymru yn arbennig o bryderus am y gostyngiad yn y niferoedd o wartheg sy'n pori ar rai o'n bryniau, lle mae gadael i dir fynd yn segur, tan-bori a/neu golli pori cymysg (gan arwain yn aml at ormodedd o ddefaid) yn cael effaith negyddol ar gynefinoedd 'agored' pwysig a'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnyn nhw. Rydym yn pryderu, heb gefnogaeth ddigonol, y bydd dull o weithredu drwy Gymru gyfan yn arwain at absenoldeb a gostyngiad parhaus mewn pori gwartheg ar ein bryniau.

**Diflaniad ffermio**

3.6 Efallai y bydd ffermwyr yn brysio i ymadael â ffermio yn hytrach na gwella'u daliadau gan y gallai benthyciadau pellach ar gyfer eitemau cyfalaf, mwy o fiwrocratiaeth a mwy o waith papur fod yr ergyd olaf i nifer ohonynt. Gallai hyn arwain at ehangu ffermydd diwydiannol eu maint ar draul ffermydd teuluol llai.

3.7 Efallai y bydd costau cynyddol, rheoliadau tynnach a gofynion cyfalaf uwch hefyd yn ormod o rwystr i ddenu cenedlaethau newydd o ffermwyr, ac fe all hyn gyflymu tranc cymunedau gwledig a'r Gymraeg wrth i lai o bobl barhau ym myd amaeth.

**Bylchau cyfreithiol**

3.8 Er mwyn cydymffurfio â therfynau defnyddio nitrogen, gall busnesau fferm mawr brynu mwy o dir - nid i ffermio fel y cyfryw - ond yn hytrach i ryddhau tir ar gyfer taenu slyri arno. Unwaith eto, mae hyn yn codi pryderon ynghylch hwyluso'r arfer o greu daliadau tir diwydiannol mwy eu maint.

3.9 Rydym yn ymwybodol o adroddiadau bod busnesau fferm ger ffin Cymru a Lloegr yn cludo ac yn taenu slyri ar dir dros y ffin yn Lloegr (lle mae rheoliadau'n llai llym), sydd 'mond yn symud y broblem i rywle arall.

**Cyfnod gwaharddedig**

3.10 Efallai bod ffermio drwy galendr yn swnio'n dda ar bapur, ond mewn gwirionedd, yn ymarferol mae pethau'n fwy cymhleth o lawer, yn rhannol oherwydd newid hinsawdd. Wedi'r cyfan, nid yw natur a thywydd yn cadw at ddyddiadau calendr. Fel y cyfryw, mae dadl gref dros daenu diogel a synhwyrol drwy gydol y flwyddyn/tymor tyfu. Ni fyddai hyn yn bosibl o dan y rheoliadau arfaethedig.

3.11 Gallai gorfodi cyfnod gwaharddedig ar gyfer taenu slyri greu hafoc i gontractwyr a ffermwyr gan y bydd pawb yn mynnu bod eu storfeydd yn cael eu gwagio cyn iddo ddechrau. Bydd pwysau cynyddol i wagio storfeydd slyri yn hytrach na thaenu'r slyri er mwyn gwneud y defnydd gorau ohono. Gallai hyn yn ei dro achosi rhagor o ddŵr-ffo'n llifo i mewn i gyrsiau dŵr oherwydd gor-wrteithio posib.

**Monitro, cyngor a gorfodaeth**

3.12 Mae cynnydd mewn rheoleiddio yn golygu bod angen mwy o waith monitro a gorfodaeth. Mae pryderon nad oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru'r (CNC) gallu i ddelio â rheoliadau a digwyddiadau llygredd fel y mae ar hyn o bryd. Mae effeithiolrwydd rheoleiddio yn ddibynnol ar y rhaglenni cynghori, monitro a gorfodaeth sy'n sail iddo, felly bydd angen buddsoddiad digonol yn y meysydd hyn i ddarparu dull effeithiol o weithio ar lefel Cymru gyfan.

3.13 Dylai archwiliadau fferm cyfredol CNC fod wedi cael eu cwblhau cyn i'r patrwm o weithredu ar lefel Cymru gyfan gael eu mabwysiadu, gan y byddai hyn yn rhoi dadansoddiad amlwg a manwl o raddfa'r cyllido bydd ei hangen er mwyn i ddaliadau gydymffurfio â'r rheoliadau newydd.

3.14 Dylai rheoleiddio gael ei dargedu'n well at droseddwyr cyson a'r rhai sy'n torri'r rheolau yn fwriadol ac yn ddigywilydd. Er enghraifft, awgrymwyd bod rhai ffermwyr yn cynnwys cosbau ariannol yn eu costau busnes. Mae hyn yn achosi rhwystredigaeth enfawr i ffermwyr sy'n cydymffurfio â rheoleiddio ac yn cynhyrchu bwyd mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd. Mae'n adlewyrchu'n wael ar y diwydiant cyfan ac yn peri risg y bydd pob ffermwr yn cael enw drwg. O'r herwydd, rhaid i orfodaeth fod yn ddigonol i gael gwared ar yr arfer hwn ac i newid ymddygiad. Credwn hefyd y dylai'r diwydiant ffermio ehangach fod yn codi ei lais yn amlach i gondemnio busnesau ffermio sy'n achosi llygredd.

***Beth yw eich barn ar y broses ar gyfer datblygu'r dull cyfredol?***

4.1 Nododd y Gweinidog ar y cychwyn na fyddai unrhyw reoliadau newydd yn cael eu cyflwyno nes bod pandemig Covid-19 wedi dod i ben. Yn anffodus, nid dyma ddigwyddodd ac mae hyn wedi arwain at fwy o ddrwgdybiaeth o Lywodraeth Cymru ymhlith y gymuned ffermio.

4.2 Ni fu ymwybyddiaeth ddigonol ac arweiniad clir i ffermwyr ddeall y rheoliadau arfaethedig yn iawn. Mae'r ddogfen ganllawiau i ffermwyr a rheolwyr tir ynddi'i hun yn 95 tudalen o hyd, sy'n annhebygol o symbylu pobl i'w darllen a dweud y lleiaf.

4.3 Fel y soniwyd eisoes, nid oes cyllid digonol ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau perthnasol er mwyn helpu cydymffurfiaeth, yn enwedig ar gyfer ffermwyr tenant.

4.4 Mae perygl y bydd ffermydd teulu llai o faint, sydd wedi'u pori'n eang (lle mae digwyddiadau llygredd yn llai cyffredin ac yn llai sylweddol) yn darged hawdd ar gyfer diffyg cydymffurfio.

4.5 Gellir dadlau y dylid gohirio cyflwyno rheoliadau llym newydd nes bod mwy o eglurder ynghylch diddymu'r Cynllun y Taliad Sylfaenol a lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Mae'n anodd i ffermwyr gynllunio a pharatoi ar gyfer y dyfodol gyda chymaint o ansicrwydd.

***Beth yw'r dewisiadau eraill i'r sefyllfa bresennol a/neu sut y gellir eu gwella?***

**Mae Llai yn Fwy / Mae Natur yn Dda i Fusnes**

**5.1** Credwn fod hyrwyddo ffermio er lles natur ac sy'n dilyn dull Mae Llai yn Fwy, sy'n annog ffermwyr i weithredu o fewn capasiti cynhyrchu naturiol eu tir (a elwir hefyd yn *Allbwn Cynaliadwy Mwyaf*), yn allweddol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Fel y soniwyd eisoes, mae digwyddiadau llygredd yn digwydd yn amlach na pheidio oherwydd bod cyfraddau stocio yn uwch na chapasiti cynhyrchu naturiol y tir, gan arwain at gynhyrchu gormodedd o slyri.[1] Yn syml, does dim digon o dir i daenu slyri yn gynaliadwy, sy'n golygu bod ffermwyr yn cael eu gorfodi i'w daenu mewn meintiau anghynaladwy a/neu ar adegau anaddas. Byddai annog ffermwyr i ddefnyddio dulliau agroecolegol yn dileu'r angen am unrhyw reoliadau NVZ.

**5.2** Gall ffermio er lles natur hefyd fod y ffordd fwyaf proffidiol o ffermio. Mae natur yn darparu cyfalaf naturiol i ffermwyr ar gyfer eu busnesau ar ffurf priddoedd, glaswellt, dŵr a daeareg, ac mae busnesau fferm yn gweithio â rheiny i gynhyrchu cnydau neu dda byw. Lle nad yw'r asedau rhad ac am ddim hyn yn cael eu rheoli'n gywir bydd cynhyrchiant y fferm yn lleihau. O fynd y tu hwnt i'w gallu cynhyrchu naturiol, er enghraifft drwy gynyddu stocio i lefelau sy'n fwy na'r hyn y gellir ei fwydo ar borthiant sydd ar gael yn naturiol, neu gnydio ar lefel uwch nag y gall y pridd ei gynnal yn naturiol, bydd angen i'r busnesau ffermio addasu i barhau i gynhyrchu. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio mewnbynnau ychwanegol fel gwrteithiau neu orfod prynu porthiant ychwanegol i gynnal cynhyrchiant. Mae hyn yn cynyddu costau cynhyrchu drwyddo draw ac, o bosibl, yn lleihau proffidioldeb busnes y fferm. Mae tystiolaeth yn dangos bod y dull *Mae Llai yn Fwy* nid yn unig yn gwella perfformiad ariannol ffermydd (ar draws pob math o fferm) ond

[1] Mae'n bwysig nodi nad maint y daliad yw'r broblem o reidrwydd, ond yn hytrach y dwysedd stocio (h.y. nifer y da byw mewn perthynas â maint y daliad).

hefyd yn esgor ar ganlyniadau amgylcheddol positif. Mae ein hadroddiad Nature Means Business yn darparu mwy o wybodaeth am hyn, ac yn cynnwys astudiaethau achos fferm o sut mae'r dull hwn yn gweithio'n ymarferol.

**Atebion Ar Sail Natur**

**5.3** Mae Atebion Amaethyddol ar Sail Natur yn ddull effeithiol, hirdymor, cost-effeithlon o fynd i'r afael â rheoli adnoddau ein tir a dŵr a newid hinsawdd yn gynaliadwy. Gall yr arferion hyn helpu i wella argaeledd ac ansawdd dŵr yn ogystal ag adfer ecosystemau a phriddoedd.

**5.4** Er enghraifft, gall sefydlu ymylon caeau a choridorau torlannol greu stribedi byffro gwerthfawr i gyrsiau dŵr, yn enwedig ar gyfer cnydau risg uchel fel indrawn neu faip. Mae tystiolaeth yn dangos bod effeithiolrwydd casglu gwaddodion rhwng 30-90% ar gyfer stribedi byffro un metr o led, rhwng 55-90% ar gyfer stribedi tri metr o led, a rhwng 58-95% ar gyfer stribedi chwe metr o led. Mae hyn hefyd yn helpu i gynnal mwy o fioamrywiaeth a llai o ddŵr ffo ar adegau o law trwm.

**5.5** Gall sefydlu gwyndonnydd llysieuol amlrywogaeth a glaswelltiroedd sy'n gyfoeth o rywogaethau helpu hefyd. Mae gan rywogaethau sydd wedi'u plannu mewn gwyndonnydd llysieuol wreiddiau dwfn, felly maen nhw'n amsugno maethynnau, mwynau a dŵr yn ddwfn o fewn y pridd. Mae'r planhigion hyn hefyd yn helpu i fachu nitrogen yn y pridd sy'n golygu nad oes rhaid i ffermwyr brynu gwrtaith artiffisial ychwanegol. Gall hyn helpu i ddal a storio mwy o garbon a gwella iechyd y pridd, ynghyd â gwella economeg a chynhyrchiant y fferm.

**5.6** Gall defnyddio atebion ar sail natur ar raddfa'r dirwedd, megis adfer mawndiroedd a phlannu coed mewn mannau priodol, hefyd helpu i leihau llifogydd ymhellach i lawr yr afon, a thrwy hynny leihau cyfraddau dŵr ffo ar, a gerllaw, caeau o ffridd (*in-bye land*), lle mae yna fwy o nitrogen.

**5.7** Rhaid defnyddio cymorthdaliadau amaethyddol, yn enwedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, i hwyluso a gwobrwyo atebion ar sail natur sy'n allweddol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ffermydd.

**Addysg / Cyngor**

**5.8** Mae'n bwysig addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth o reoli maethynnau yn briodol ymhlith y diwydiant ffermio a, thrwy hynny, helpu ffermwyr i ddefnyddio gwrtaith ac adnoddau yn fwy effeithiol. Dylai bod cysylltiad agos rhwng rheoleiddio a chyngor fel bod gan unrhyw ffermwr sydd wedi torri rheoliad a) yr amser i unioni'r sefyllfa a b) fynediad at gyngor da er mwyn cydymffurfio yn y dyfodol. Byddai hyn yn arwain at fwy o ymddiriedaeth rhwng y diwydiant a'r rheoleiddiwr.

**5.9** Un model o weithio profedig er mwyn gwella ymlyniad wrth reoleiddio yn y sector llygredd dŵr sy'n cael sylw cynyddol yw dull yr Alban o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol gwasgaredig (gweler Atodiad 2 yn yr adroddiad hwn). Ers 2010 mae Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) wedi datblygu dull unigryw o fynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig o ffermydd, yn wreiddiol mewn 14 ond bellach mewn 43 dalgylch dŵr â blaenoriaeth. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar gyngor ac ymgysylltu cyn cosbi ac mae'n cynnwys ymweliad cychwynnol â chynghorydd hyfforddedig; asesiad risg gan y ffermwr; llythyr; adroddiad a chyngor dilynol gan yr ymgynghorydd a hyd at dri ymweliad dilynol i sefydlu a yw'r materion wedi'u datrys. Mae'n dipyn o ymdrech sydd â ffocws pendant ag ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol yn sail iddo, ond mae'n tanlinellu bod cyngor ac ymgysylltu dros amser wrth galon sicrhau disgwyliadau clir gan ffermwyr yn ogystal â gwelliannau pendant.

**5.10** Bu galw i gynyddu'r cyflenwad llaeth ac mae ffermwyr wedi ymateb yn dda iawn ac wedi buddsoddi'n helaeth, ond rydym wedi anwybyddu materion yn ymwneud â chynyddu cynhyrchiant slyri. Nid bai'r ffermwyr yw'r cynnydd mewn unedau llaeth dwys iawn sy'n creu llawer iawn o slyri oherwydd mae'n

ymddangos eu bod wedi'u gwthio i mewn i'r sefyllfa hon drwy'r pwysau arnynt i gynhyrchu mwy. Mae cyngor y diwydiant a'r farchnad wedi cyfrannu tuag at symud ffermio i'r cyfeiriad anghynaladwy hwn, a dylid rhoi llawer mwy o bwyslais ar effeithiau amgylcheddol unrhyw gyngor penodol.

**Newid i dail buarth sy'n seiliedig ar wellt**

**5.11** Byddem yn annog ymdrechion i hwyluso ffermwyr i newid o slyri hylifedig i dail buarth fferm.

**Gweithio cydweithredol**

**5.12** Mae cydweithredu/cyllido agosach rhwng ffermwyr â chyrff anllywodraethol amgylcheddol (fel yr Ymddiriedolaethau Afonydd) yn gwella ymwybyddiaeth a defnydd o arfer gorau mewn dalgylch yn fawr. Gall hyn arwain at rannu gwybodaeth a rhyngweithio llawer mwy lleol rhwng ffermwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid gwledig, gan arwain at drefniadau gweithio mwy positif rhyngddynt a mwy o barhad o ddulliau rheoli tir cynaliadwy.

**Cynllunio**

**5.13** Mae angen ailfeddwl ein deddfau cynllunio cenedlaethol i helpu i ddileu llygredd amaethyddol. Mae angen trefniant mwy cydweithredol o lawer ar awdurdodau lleol, cynllunwyr, datblygwyr a ffermwyr. Nodwn fod y rhan fwyaf o'r trafodaethau ynghylch llygredd amaethyddol yn canolbwyntio ar ffermio llaeth. Fodd bynnag, mae sectorau eraill, (y sector dofednod yn amlwg) hefyd yn cyfrannu at y broblem. Dylid asesu effeithiau cronnol unedau dofednod dwys yn fwy trylwyr, yn enwedig ym Mhowys sy'n cael ei alw'n brifddinas dofednod Cymru.

**Technoleg**

**5.14** Gall prosiect slyri Coleg Sir Gâr Gelli Aur, sy’n edrych ar ddatblygu system dad-ddyfrio a phuro i reoli slyri ar ffermydd, helpu i fynd i’r afael ag effaith y diwydiant amaethyddol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, yn enwedig wrth ei wneud yn economaidd hyfyw i ffermydd ar raddfa eang, felly ni ddylem ddibynnu'n llwyr ar dechnoleg fel yr un ateb amlwg wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

## Casgliadau

Diolch i chi am ystyried ein cyflwyniad. Gobeithiwn y bydd y pwyllgor yn rhannu ein barn ar bwysigrwydd ffermio er lles natur wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig dros dymor y chweched Senedd.

***Am fanylion pellach, cysylltwch â rhys.evans@nffn.org.uk***